

Uwchsain carotid

Beth yw hwn?

Gall sgan uwchsain carotid hefyd gael ei alw'n dwplecs carotid neu sgan Doppler o'r carotidau. Mae'r prawf hwn yn defnyddio uwchsain i gynhyrchu delweddau o'r prif rydweliâu yn y gwddf sy'n cludo gwaed i'r llygaid a'r ymennydd. Mae'n ffordd ddiogel ac effeithiol o edrych ar lif y gwaed a gall roi gwybod i ni os oes unrhyw rwystr yn y rhydweliâu neu os ydynt wedi culhau. Mae'r prawf yn ddi-boen ac nid yw'n defnyddio unrhyw ymbelydredd. Gall y prawf gymryd hyd at 30 munud.

Pam ydw i'n cael y prawf hwn?

Mae eich meddyg wedi gofyn am y sgan hwn oherwydd ei fod naill ai wedi amau TIA neu fân strôc neu fel rhan o'ch gwaith cyn llawdriniaeth ar gyfer llawdriniaeth gardiaidd. Efallai eich bod wedi cael symptomau fel gwendid i lawr braich neu goes, siarad yn aneglur neu amharu ar y golwg.

Sut mae uwchsain carotid yn cael ei gyflawni?

Nid oes angen paratoi ar gyfer y sgan. Nid oes angen i chi dynnu eich cymorth clyw na sbectol ond gallai fod yn ddefnyddiol tynnu unrhyw ategolion/dillad eraill fel y gallwn gyrraedd eich gwddf yn ystod y sgan. Bydd gwyddonydd clinigol neu wyddonydd clinigol dan hyfforddiant (a allai fod yn wryw neu'n fenyw) yn cyflawni ac yn dehongli eich sgan uwchsain. Gofynnir i chi orwedd ar sofffa gyda'ch pen ar glustog. Bydd y goleuadau'n cael eu gostwng fel bod y gwyddonydd yn gallu gweld y sgrin yn well. Rhoddir jel ar y



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

chwiliedydd a bydd y gwyddonydd yn ei symud i fyny ac i lawr y gwddf i weld y rhydweliâu carotid.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gwyddonydd clinigol neu'r gwyddonydd dan hyfforddiant yn esbonio'r canfyddiadau ac yn ysgrifennu adroddiad a fydd ar gael i'r meddyg a ofynnodd am y sgan. Byddwch yn gallu trafod canlyniadau'r ymchwiliad yn llawn gyda'r tîm atgyfeirio yn ystod eich apwyntiad ffôn/claf allanol nesaf. Os yw canlyniadau'r sgan yn arwyddocaol efallai y gofynnir i chi aros i weld meddyg ar ôl y sgan.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board